

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, Caerfyrddin
am 6pm ddydd Iau 19^{eg} Tachwedd 2015

Yn bresennol:

Jonathan Tudor (JT) - Ysgrifennydd

Yr Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd
Karen Burch (KB) - Is-gadeirydd
Jillie Gardiner (JG)
Jane Evans (JE)
Caroline Evans (CE)
David Stacey (DS)
Glyn Evans
Geoff Williams (GW)

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Phil Stone (PS) - CNC
Y Cynghorydd Deryk Cundy (DC) – Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Cymunedau [CSC]

Ymddiheuriadau (Aelodau) Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr / Sylwedyddion)

Alan Warner (AW) – Aelod a benodwyd gan CSC
Eric Davies (ED)
Keith Morgan (KM)
Chris Rankin (CR)
Richard Leggett (RL)

* Cyngor Sir Caerfyrddin sydd dan sylw pan ddefnyddir CSC yn y cofnodion hyn

YR EITEM	GWEITHREDU
Eitem 1 Croeso – Estynnodd MH groeso i bawb i'r cyfarfod.	
Eitem 2 Aelodau Newydd Cyflwynodd Jane Evans ei hun gan esbonio ei bod wedi ei phenodi'n ddiweddar yn gynrychiolydd Sir Gaerfyrddin ar ran Cymdeithas Ceffylau Prydain. Roedd Geoff Williams o Gerddwyr Dinefwr, a arferai fynychu'r Fforwm Mynediad Lleol fel sylwedydd ac a fu'n aelod ac yn gyn-Gadeirydd yn y gorffennol, wedi cyflwyno cais am ailymuno fel aelod llawn, ac roedd yn bresennol. Hefyd roedd Richard Leggett, Cadeirydd Cerddwyr Caerfyrddin, wedi cyflwyno cais am ymuno ond nid oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heno. Diolchodd MH iddynt am eu diddordeb a chadarnhaodd y Fforwm Mynediad Lleol fod y tri'n aelodau newydd.	
Eitem 3 Ymddiheuriadau Daeth ymddiheuriadau i law ac fe'u cofnodwyd.	

<p>Eitem 4 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 27^{ain} Awst 2015</p> <p>Cafodd y cofnodion eu gwirio a'u cymeradwyo yn amodol ar un newid bach.</p>	
<p>Eitem 5 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 27^{ain} Awst 2015</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin - Gofynnodd KB a fyddai modd cael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Archifau (a oedd ynghau ar hyn o bryd). Eglurodd y Cynghorydd Cundy nad oedd y cyfleuster presennol ym Mharc Myrddin yn addas i'r diben. Roedd mannau eraill yn lleol a dewisiadau eraill dan sylw. Cynigiodd y Cynghorydd Cundy gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y swyddogion perthnasol yn CSC. Byddai JT yn anfon neges e-bost at y Cynghorydd Cundy ac yn dosbarthu unrhyw wybodaeth a ddeuai i law. • Cynhadledd y Fforymau Mynediad Lleol - Nid oedd JT wedi gallu mynd i'r gynhadledd ar 15^{fed} Medi ond byddai'n anfon copi o'r cofnodion os/pryd y byddai CNC yn eu dosbarthu. 	JT
<p>Eitem 6 Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheoli Cŵn)</p> <p>Cyfeiriodd MH at y ddogfen ymgynghori oedd wedi'i dosbarthu ac at y dyddiad cau sef 14/12/2015. Cadarnhaodd MH fod y Bwrdd Gweithredol wedi derbyn a dilyn cyngor y Fforwm Mynediad Lleol ac wedi cymeradwyo bod y cynigion yn rhai synhwyrol a chytbwys h.y.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gorchymyn ar gyfer y sir gyfan a fydd yn mynnu bod perchenogion cŵn yn codi baw eu cŵn ar bob tir cyhoeddus. • Gorchymyn ar gyfer y sir gyfan a fydd yn mynnu bod pobl yn cadw eu cŵn ar dennyn (nad yw'n hwy na 2 fetr) pan roddir cyfarwyddyd iddynt wneud hynny gan swyddog awdurdodedig, a allai gynnwys swyddogion awdurdod lleol, heddwision a/neu swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu. • Gorchymyn a fydd yn gwahardd cŵn o lecynnau chwarae i blant. <p>Cododd rhai aelodau gwestiynau ynghylch materion gorfodi ac ynghylch yr anawsterau posibl o ran cydymffurfio yn achos pobl oedd yn ymarfer eu cŵn tra oeddynt yn marchogaeth ceffyl, ond nid oedd aelodau eraill o'r Fforwm Mynediad Lleol yn gweld bod hynny'n effeithio ar allu pobl i wneud pethau megis codi baw eu cŵn. Dywedodd JT fod llu o gwestiynau wedi cael sylw yn y ddogfen Cwestiynau a Ofynnir yn Fynych a oedd wedi'i dosbarthu gyda'r ddogfen ymgynghori.</p>	
<p>Eitem 7 Ymgynghoriad gan CNC ynghylch y Canllawiau Drafft ar gyfer Adolygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy</p> <p>Roedd y ddogfen ymgynghori wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod. Y dyddiad cau oedd 27/11/2015. Dywedodd GW y byddai'n anfon ymateb y Cerddwyr at MH. Yna byddai MH yn ymateb ar ran y Fforwm Mynediad Lleol gan roi sylw i unrhyw sylwadau gan unrhyw aelodau. Hefyd byddai JT yn ymateb ar ran Tîm Mynediad i Gefn Gwlad CSC.</p> <p>Roedd KB yn bryderus ynghylch sut y byddai Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin yn cyd-blethu â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Barnai KB fod ardal y Mynydd Du yn cael ei hesgeuluso yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.</p>	MH JT

Dywedodd MF y dylai'r Fforwm Mynediad Lleol roi sylwadau ar bwynt 2.16 yn y ddogfen ymgynghori am nad oedd unrhyw ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid yn y dyfodol, yn enwedig gan fod y broses adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy mor faith a chostus.

Gan gyfeirio at y toriadau parhaus i gyllid yr Awdurdod Lleol, dywedodd y Cynghorydd Cundy taw'r amcangyfrif presennol oedd y byddai'r toriadau'n rhyw 40% dros y 3 blynedd nesaf. Cyfeiriodd PS o CNC at doriadau o 25%-40% dros y 5 mlynedd nesaf. Fodd bynnag roedd CNC wedi ymrwymo i wario £900,000 ar Lwybr Arfordir Cymru dros y 5 mlynedd nesaf.

Dywedodd KB fod yr amgylchedd ariannol yn golygu ei bod yn bwysicach byth fod y Cyngor yn cydweithio â'r defnyddwyr a'r gwirfoddolwyr er mwyn ceisio dod o hyd i atebion.

Hefyd cafwyd trafodaeth ynghylch pwynt 4.20 yn y drafft, sef hoelio sylw ar yr ardaloedd *'lle mae'r dystiolaeth yn dangos bod angen cyhoeddus amlwg nad yw'n cael ei ddiwallu'* yn hytrach na hoelio sylw ar y bylchau yn y rhwydwaith neu'r diffyg o ran math penodol o ffordd fel y cyfryw.

Eitem 8 Ymgynghoriadau – ystyri 'ymgynghori' - MH

Eitem 9 Fferm Wynt Fforest Brechfa - y wybodaeth ddiweddaraf

Cyfunwyd yr eitemau uchod i'w trafod, a dywedwyd bod rhag-gyfarfod wedi'i gynnal gyda PS o CNC i drafod mater ymgynghori yng nghyswllt Fferm Wynt Brechfa.

Roedd pryder ynghylch nad oedd digon o wybodaeth am beth yn union oedd ymgynghoriad ffurfiol â'r Fforwm Mynediad Lleol yn hytrach na darparu gwybodaeth/cyfarwyddyd neu gyflwyniadau am bwnc. Gallai'r sefyllfa fod yn gymhleth oherwydd, mewn rhai achosion, roedd yn ofynnol yn statudol i ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol, e.e. gan CNC ynghylch cau 'Tir Mynediad'. Fodd bynnag mewn achosion eraill ynghylch mynediad a hawliau tramwy cyhoeddus nid oedd rheidwydd statudol i ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol, er bod hynny'n digwydd yn fynych yn rhinwedd bod yn rhanddeiliad perthnasol. Felly nid oedd gweithdrefn o reidwydd yn ddiffygiol oherwydd nad oeddid wedi ymgynghori'n ffurfiol â'r Fforwm Mynediad Lleol.

Cytunodd y Fforwm Mynediad Lleol taw diffiniad synhwyrol o ymgynghori oedd bod yn rhaid i hynny ddigwydd yn y man hwnnw mewn unrhyw broses lle'r oedd modd o hyd i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniadau.

Bydd MH yn ysgrifennu at RWE ynghylch Fferm Wynt Brechfa gan esbonio pryderon y Fforwm Mynediad Lleol ynghylch cynnwys y Cynllun Rheoli Mynediad ac ynghylch rhai o'r cyfeiriadau at yr 'ymgynghoriadau' oedd wedi digwydd.

Gofynnwyd cwestiwn i PS, o CNC, ynghylch sut y gallai'r Fforwm Mynediad Lleol sicrhau ei fod yn ymgynghorai a'i fod yn cael rhybudd cynnar am unrhyw gynlluniau ar dir CNC oedd yn effeithio ar 'dir mynediad'. Byddai PS yn gofyn i'w gydweithwyr yn CNC.

Gofynnodd y Fforwm Mynediad Lleol a ellid gwahodd cynrychiolydd o wasanaeth cynllunio CSC i gyfarfod yn y dyfodol i egluro'r broses o ran prosiectau isadeiledd mawr.

JT

<p>Eitem 10 Rhaglen Gwaith Gwella</p> <p>Dosbarthwyd adroddiad gan Alan Warner (AW), Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad CSC. Roedd yr adroddiad yn amlinellu gwaith gwella o dan y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, a Rhaglenni Cyllido'r Bartneriaeth Cydweithio. Cofnododd y Fforwm Mynediad Lleol ei ddiolch am y wybodaeth hon.</p> <p>Gofynnodd MH a fyddai modd i adroddiadau yn y dyfodol gynnwys cyfeirnodau grid. Byddai JT yn gofyn i AW.</p>	<p>JT/ AW</p>
<p>Eitem 11 Deddf Teithio Llesol 2013 – Y Wybodaeth Ddiweddaraf</p> <p>Darllenodd JT neges e-bost gan Simon Charles (Rheolwr Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd CSC) a gyfeiriai at ymgynghoriad ynghylch y llwybrau presennol fel rhan o'r broses Teithio Llesol. Roedd JT yn disgwyl cael yr ymgynghoriad cyn bo hir, a byddai'n ei ddisbarthu. Dywedodd JT ei fod yn deall bod rheidrwydd ar CSC i gyflwyno'r llwybrau hynny i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2016 ar ôl y cyfnod ymgynghori. Barn y Fforwm Mynediad Lleol oedd nad oeddid yn ymgynghori'n briodol â'r Fforwm ynghylch y mater hwn.</p>	<p>JT</p>
<p>Eitem 12 Recriwtio</p> <p>Dywedodd JT nad oedd dim ceisiadau eraill, heblaw'r 3 aelod newydd a groesawyd a'u cadarnhau'n gynharach yn y cyfarfod.</p>	
<p>Eitem 13 Eitemau i'w rhoi ar Agenda'r cyfarfod nesaf</p> <p>Awgrymwyd y canlynol: Teithio Llesol, Llwybr Beicio Dyffryn Tywi, Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, yr Adroddiad Blynyddol, Ymgynghoreion Statudol, achos Ilys Herrick v Somerset County Council.</p>	
<p>Eitem 14 Unrhyw Fater Arall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol – Roedd MH yn camu ymlaen â'r adroddiad ac yn bwriadu ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd. Gofynnwyd a fyddai modd iddo fod ar gael ar-lein ac efallai yn y llyfrgelloedd. • Llwybr Beicio Dyffryn Tywi – roedd DS wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod ymgynghori gan CSC ynghylch y cynllun, a dywedodd fod y derbyniad yn dda ar y cyfan. Byddai llawer o'r llwybr yn defnyddio'r hen reilffordd. Roedd rhai ffermwyr wedi mynegi eu pryderon gan fod yr hen reilffordd yn fan llochesu ar gyfer da byw yn ystod llifogydd. Hefyd roedd marchogion ceffylau wedi gofyn a fyddai ganddynt hawl i ddefnyddio'r llwybr. • Ffordd Cambrian - dywedodd GW fod canllaw a gwefan newydd yn cael eu datblygu. • Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Cilffordd Penstacan - Cafwyd trafodaeth ynghylch digwyddiad ar y llwybr hwn ac ynghylch cais gan y perchennog tir am Orchymyn Rheoleiddio Traffig. Byddid yn trafod hyn yng nghyfarfod y Grŵp Cyswllt Defnyddwyr Cilffyrdd. • Llwybr Caniataol Glastir – daethai ymgynghoriad i law gan Lywodraeth Cymru/Glastir ynghylch bod llwybr caniataol yn ardal Cil-y-cwm yn cael ei gynnwys 	

<p>yn yr Uwch-gynllun Glastir. Roedd y llwybr yn gyn-lwybr Tir Gofal at wylfan. Cododd y Fforwm Mynediad Lleol rai materion ond cytunodd i'r cynllun.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Papur Gwyrdd – Roedd ymateb y Fforwm Mynediad Lleol i Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ynghylch 'Gwella Cyfleoedd i gael Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer Gweithgareddau Hamdden Cyfrifol' wedi'i gyflwyno. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cael miloedd o ymatebion, ac y byddai'n camu ymlaen â'r mater yn y Flwyddyn Newydd. 	
<p>Eitem 15 - Dyddiad/Lleoliad y Cyfarfodydd Nesaf</p> <p>Byddid yn cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd 2016 maes o law.</p>	<p>JT</p>